



# Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod o'r Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 7 Ionawr 2014 am 6.30yh  
yn Ystafell Gynhadledd Antur Teifi, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 7 January 2014 at 6.30pm  
at the Antur Teifi Conference Room, Cardigan.

**Presennol/Present—Cynghorwyr/Councillors** Gwynfi Jenkins (*yn y gadair/in the chair*),  
Graham Evans, John Adams-Lewis, Dai Brabrook, Mark Cole, Clive Davies, Llwyd Edwards, Melfydd  
George, Catrin Miles, Jane Roche, Akira Shimazaki.

- 1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol / The Chair's Welcome and Personal Matters. Croesawodd y Maer, y Cyng. Gwynfi Jenkins, bawb i'r cyfarfod gan ddymuno blwyddyn newydd dda iddynt.**  
The Mayor, Cllr Gwynfi Jenkins, welcomed all to the meeting and wished everyone a happy new year.
- 2. Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Cyng./Cllrs Ken Edwards (*gwaith/work*), Neal Jones
- 3. Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.**  
Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Cyng./Cllr John Adams-Lewis	<i>Yr holl faterion cynllunio.</i> All planning matters
Cyng./Cllr Clive Davies	<i>Cynllunio/Planning A130954</i> <i>Biliau i'w talu /Bills to pay: Telem@</i>
Cyng./Cllr Melfydd George	<i>Cynllunio/Planning A130954</i>
Cyng./Cllr Catrin Miles	<i>Cynllunio/Planning A130862</i>

- 4. Cadarnhau Cofnodion cyfarfod y cyngor 3 Rhagfyr.**  
Confirmation of council minutes of 3 December meeting.  
**Cynigiwyd gan y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Jane Roche bod cofnodion y cyngor misol, 3 Rhagfyr, yn gywir.**  
Cllr Mark Cole proposed that the 3 December council monthly minutes were correct. This was seconded by Cllr Jane Roche.
- 5. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from minutes.**  
**Tud. 789 9(b)(ii): Dywedodd y Cyng. Mark Cole bod cynlluniau newydd ar waith ar Ganolfan Meugan.**  
**Tud. 791 (11) (Goleuadau Nadolig): Diolchodd y Maer i bawb a gynorthwyodd i sicrhau llwyddiant y goleuadau eleni.**  
Page 789 9(b)(ii): Cllr Mark Cole stated that revised plans were being formulated for Canolfan Meugan.  
Page 791 (11) (Christmas lights): The Mayor thanked all who were responsible for securing Christmas lights on the streets of Cardigan this year.
- 6. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.**  
Activities of the Mayor. Dates for your diary.

## 7. Cynllunio / Planning.

Rhif y Cais / Application No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A130862	Land off Tenby Road, Cardigan	Development of 13 dwellings and associated works for the social rented market comprising 8 x 1 bed flats, 2 x 3 bed houses, 1 x wheelchair bungalow, 2 x 2 bed houses.	The town council has the following concerns: What is the county council's strategy to manage the impact on wildlife and hedgerow enhancement planting? According to a CCC directive, previous applications for further flats or apartments on the Tenby Road have been refused. Has the authority researched the relevant drainage scheme for the area?
A130907AV:	Tesco Stores Ltd., Aberystwyth Road	Display of signage.	The town council requests that the signage will be in bilingual form. Has the authority researched the relevant drainage scheme for the area?
A130954:	Drws-y-coed, Caemorgan Road	Erection of 1 <sup>st</sup> floor sun-room and balcony over existing domestic garage.	<i>Cefnogi.</i> Support.

### Penderfyniad Cyngor Sir Ceredigion / Ceredigion County Council decision:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Penderfyniad / Decision
A130627	Crugmore Farm, Penyparc	Construction and use of an anaerobic digestion facility and associated works.	<i>Wedi ei ganiatáu gydag amodau.</i> Permission has been granted with conditions (35)
A130837	Pentood Uchaf, Fishguard Road	The installation consists of a 10kW Tozzi wind turbine, mounted on a 24m galvanised steel mast. The turbine model is a three-bladed design with a 13.2m rotor diameter.	<i>Cais wedi ei dynnu'n ôl.</i> Application has been withdrawn.

## 8. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Taledigion / Payee	Côd / Code	Rhif y Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
1/1/14	Antur Teifi: <i>Rhent y Swyddfa</i> /Rent of Office	A7	D/D	£238.33 (0.00)
10/12/13	Cyngor Sir Ceredigion: <i>Cyfraniad at gynnal a chadw toiledau Feidrfair a Gerddi Victoria am flwyddyn.</i> Ceredigion County Council: Contribution for the provision of toilets and cleaning services as per Service Level Agreement – Feidrfair and Victoria Gardens	B11	3888	£19,200.00 (3,200.00)
13/12/13	Telem@: <i>Cynnal ebost ac ailgofrestru (1 flwyddyn)</i> Maintenance of email and reregistering domain (1 year)	A19	3889	£56.70 (9.45)
19/12/13	Trywydd: <i>Cyfieithu ar y pryd. (3/12/13)</i> Simultaneous translation	A17	3890	£81.90 (13.65)
31/12/13	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc/Clerk's Salary (Rhagfyr/December)</i>	A3	3891	£702.24 (0.00)
1/1/14	Antur Teifi: <i>Rhent yr Ystafell Gynhadledd.</i> Rent of Conference Room (3/12/13 & 17/12/13)	A7	3892	£60.00 (10.00)
20/10/13	Penrallt Garden Centre: <i>Coeden Nadolig.</i> Christmas tree (25ft Norway Spruce)	B1	3893	£265.00 (44.17)
19/12/13	BT: <i>Ffôn/Telephone</i>	A19	3894	£72.35 (12.06)
19/12/13	Danwood: <i>Llungopio/Photocopying</i>	A16	3895	£11.76 (1.96)
13/12/13	Swallow Office Supplies: <i>Nwyddau swyddfa/Office stationery</i>	A16	3896	£65.61 (10.94)
7/11/13	Caffi Finch Square Café: <i>Stampiau/Stamps</i>	A6	3897	£60.00 (0.00)
31/12/13	Argraffwyr E. L. Jones Printers: <i>Cardiau Nadolig/Christmas cards (official) Tafleenni/Leaflets (9/11/13), Offer swyddfa/ stationery</i>	A5	3898	£192.70 (16.20) £115.20 (19.20)
31/12/13	<i>Bachan Deche / Handyperson (Rhag./December)</i>	A18	3899	£119.70 (19.95)

**Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod y biliau yn cael eu talu.**

It was proposed by Cllr Graham Evans and seconded by Cllr John Adams-Lewis that the bills be paid.

<i>Derbyniadau/Receipts:</i>	11/11/13	<i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£4.38
	9/12/13	<i>Llog y Banc/Bank Interest</i>	£3.58

## 9. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

### (a) Y Cyng. John Adams-Lewis :

- (i) **Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod y cyngor sir yn bwriadu cyflwyno Gorchymyn Clirffordd 24 awr ar hyd y ffordd o Theatr Mwldan i Rodfa'r Felin.**

### (b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) **Gan fod y llifogydd yn bennaf yn ei ward hi, teimlodd y Cyng. Miles bod rhaid tynnu sylw at ymdrechion arbennig y gwasanaethau brys a hefyd swyddogion y cyngor sir i gydlunio strategaeth i ddelio â'r argyfwng.**
- (ii) **Ar hyn o bryd nid oes unrhyw newydd am ailagor y Swyddfa Bost yn y dref.**

### (c) Y Cyng. Mark Cole:

- (i) **Yn anffodus nid oes newyddion ar aildechrau'r gwaith ar ddatblygiad Maes-yr-haf.**
- (ii) **Cyfeiriodd y Cyng. Cole at yr argyfwng a welwyd yn dilyn y llifogydd yn ardaloedd arfordirol Ceredigion.**

### (a) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis stated that the county council proposed to introduce a 24 hour Clearway Order from Theatr Mwldan along Rhodfa'r Felin.

### (b) Cllr Catrin Miles:

- (i) As the floods were primarily in her ward, Cllr Miles wished to praise the work of the emergency services and the county council officers with their strategy to deal efficiently with the crisis.
- (ii) No further news regarding the reopening of the Post Office was forthcoming.

### (c) Cllr Mark Cole:

- (i) Unfortunately no further work has been seen at the Maes-yr-haf development.
- (ii) Cllr Cole referred to the crisis seen along the Ceredigion coastline caused by recent flooding.

## 10. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen</i> <i>Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
191	<i>CSC/CCC (Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol.</i> Head of Legal Resources): <i>Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor Moeseg a Safonau.</i> Ethics and Standards Committee meeting dates (2014)	<i>Copi wedi ei ddsbarthu i'r cyngorwyr.</i> Copy distributed to councillors.
192	<i>CSC/CCC (Paul Arnold):</i> <i>Adolygiad o'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (Parcio).</i> Traffic Regulation Order Review (Parking)	<i>Cytunwyd bod aelodau yn anfon awgrymiadau erbyn cyfarfod Chwefror.</i> It was agreed that members forward suggestions by the February meeting.
193	<i>CSC/CCC (Gwasanaethau Ariannol/Financial Services):</i> <i>Trefniadau'r Praesept 2014-15.</i> Precept Arrangements 2014-15	<i>I'w benderfynu yng nghyfarfod y Gyllideb.</i> To be set at the Budget meeting (14/1/14)
194	<i>CSC/CCC (Helen Harries):</i> <i>Manylion ynghylch dychwelyd ffurflenni etholiadol).</i> Details regarding return of electoral forms	<i>Copi wedi ei flaenyrru i'r cyngorwyr.</i> Copy forwarded to councillors. <i>Ni chafwyd gwirfoddolwyr i gasglu'r ffurflenni.</i> No volunteers were forthcoming to collect unreturned electoral forms
195	Mr Matthew Morgan, Gwbert: <i>E-bost ynglŷn â pharcio ger y Pwll Nofio.</i> E-mail regarding parking at the Swimming Pool car park.	<i>Y mater i'w gyplysu â rhif 192 uchod. Cytunodd y Cyng. Llwyd Edwards godi'r mater ar ran y Pwll Nofio gyda'r cyngor sir.</i> The issue to be discussed with no. 192 above. Cllr Llwyd Edwards, on behalf of the Swimming Pool, agreed to raise the matter with the county council.

196	Cyng/Cllr Catrin Miles: <i>Poster i hysbysu trefniadau cludo pobl i Swyddfa Bost Llandudoch</i> . Poster notifying the service arranged with Richards Bros. to transport local people to St Dogmaels Post Office	<i>Wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd</i> . Displayed on notice board. <i>Diolchwyd i'r Cyng. Catrin Miles ac i gwmni bysiau Richards am drefnu trafniadaeth i drigolion y dre deithio i Swyddfa Bost Llandudoch dros dro. Nid oes newyddion pellach am y sefyllfa ynglŷn ag agoriad y swyddfa yn y dref. Cytunwyd anfon llythyr o gwyn at y Post Brenhinol a llythyr o ddiolch i bostfeistres Llandudoch, Mrs Yvonne Wiltshire, am hwyluso'r gwaith yno.</i> The Mayor thanked Cllr Catrin Miles and Richards Bros for organising transport for local people to use facilities at St Dogmaels post office. There is no further news of the closure. It was agreed to forward a letter of complaint to Royal Mail and a letter of gratitude to Mrs Yvonne Wiltshire for her kind co-operation
197	Jill Fairweather (CADW): <i>Diweddariad ynghylch menter y Bandstand</i> . Update re the Bandstand initiative.	<i>I'w drafod tan eitem 11(a)</i> . To be discussed under item 11(a).
198	<i>Cyngor Tref Aberystwyth: Cefnogaeth y cyngor at yr ymdrechion i gadw gwasanaethau Ysbyty Aberteifi ac i gefnogi eu hymdrechion i gynnal gwasanaethau Ysbyty Bronglais.</i> Aberystwyth Town Council: Support from the council for maintaining services at Cardigan Hospital and requesting the support of CTC regarding concerns of services at Bronglais Hospital.	<i>Cytunwyd cefnogi ymdrech Cyngor Tref Aberystwyth.</i> It was agreed to support the efforts of Aberystwyth Town Council.
199	RAY Ceredigion: <i>Amserlen y sesiynau gynhelir yng Nghae Chwarae Brenin Siôr 5ed a Golwg y Castell</i> . Timetable of play sessions at King George 5 <sup>th</sup> Playing Field and Golwg y Castell	<i>Nodwyd.</i> Noted.
200	<i>Un Llais Cymru/One Voice Wales: Gwahoddiad am enwebiadau i'r garddwestau/Invitation for nominations to attend Garden Parties. No later than 7/1/14</i>	<i>Cais wedi ei ddanfôn ar ran Cyngor Tref Aberteifi at y cyngor sir.</i> Application forwarded to the county council on behalf of Cardigan Town Council
201	<i>Tim Plismona Tref Aberteifi: "Newyddion Bro".</i> Local Policing Team: "Neighbourhood News"	<i>Copi wedi ei flaenyrru i'r cynghorwyr.</i> Copy forwarded to councillors.
202	<i>Adroddiad y Bachan Deche am fis Rhagfyr.</i> Handyperson's Report for December.	<i>I'w drafod tan eitem 11.</i> To be discussed under item 11.
203	<i>CSC/CCC: Bwriad i greu Gorchymyn Clirffordd 24 awr.</i> Proposed 24 hour Clearway Order (Bath House Link Road, Cardigan)	<i>Awgrymwyd ymestyn y gwaharddiad hyd ffordd Gwbert a hefyd dros gornel Theatr Mwldan.</i> It suggested that the restriction be extended as far as Gwbert Road and the corner alongside Theatr Mwldan.

## 11. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

### Cadarnhau Cofnodion yr Is-bwyllgor 17 Rhagfyr.

Confirmation of 17 December Sub-committee minutes.

### Cynigiodd y Cyng. Clive Davies bod cofnodion 17 Rhagfyr yn gywir; eiliwyd gan y Cyng. Dai Brabrook.

Cllr Clive Davies proposed that the minutes of 17 December were correct; this was seconded by Cllr Dai Brabrook.

#### (a) Balchder Pentrefi: Diweddariad/Update – Bandstand.

**Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Miles; dywedodd fod CADW a'r cyngor sir yn cytuno i'r bandstand gael ei ddatgysylltu a'i ailgodi gan Mr Tim Phillips, Anvil Fabrication, Parc Teifi, o fewn y gyllideb a glustnodwyd. Mae Mr Phillips wedi paratoi Datganiad Gwaith ynghylch y datgysylltu, cywiro ac ailosod y to, yr ochrau, y paneli, gwaith brics, seddau a'r llawr. Mae swm o £2,000 wedi ei glustnodi gan gyngor y dref; cytunodd aelodau gynyddu'r y swm i £2,300 er mwyn prynu 50 o friciau plinth sydd yn costio £6 yr un. Gwirfoddolodd y Cynghorwyr Dai Brabrook a Graham Evans ddod â'r briciau i'r safle. Mae yna elfen o ariannu gan y cyngor sir am gostau sgaffaldau, ailosod y llwybrau a'r gwelyau blodau ger y bandstand. Rhagdybiwyd y derbynir grant o £14,000 gan Gronfa Adnewyddu Pentrefi Cynghorau Tref a Chymuned Ceredigion (Balchder Pentrefi). Rhaid cwblhau'r gwaith erbyn diwedd mis Chwefror.**

**Cynigiodd y Cyng. Llwyd Edwards ac eiliwyd gan y Cyng. John Adams-Lewis bod cyngor y dref yn parhau â'r gwaith angenrheidiol.**

**Diolchwyd i'r Cyng. Catrin Miles am ei gwaith arbennig i ddod â'r prosiect i ffrwythlondeb.**

An update was given by Cllr Miles who stated that CADW and the county council were in agreement that the bandstand could be dismantled and re-assembled by Mr Tim Phillips, Anvil Fabrication and Metalworks, Parc Teifi, within the allocated budget. Mr Phillips had prepared a Method Statement which would involve dismantling, repairing and re-assembling the roof, sides, panels, brickwork, seating and flooring. £2,000 had been allocated by the town council towards the work; members agreed that this could be increased to £2,300 in order that 50 plinth bricks at a unit cost of £6 might be purchased. Cllrs Dai Brabrook and Graham Evans volunteered to deliver the bricks on site. There would be an element of funding from the county council to pay for scaffolding and replacing pathways and flower beds alongside the bandstand. It is anticipated that a grant of £14,000 would be awarded by the Ceredigion Community and Town Councils Village Regeneration Fund (Balchder Pentrefi). The work is to be completed by the end of February.

Cllr Llwyd Edwards proposed that the town council proceeds with the necessary arrangements; this was seconded by Cllr John Adams-Lewis.

Cllr Miles was thanked for her dedicated work to bring this exciting project to fruition.

**(b) Tynnu'r goeden Nadolig/Dismantling the Christmas tree.**

**Cytunwyd i'r Bachan Deche dynnu'r goeden Nadolig ymaith, a chytunodd y Cyng. Miles ofyn i Mr Matthew Penny symud y goleuadau Nadolig oddi arni hefyd a gofyn iddo am anfonebau'r gwaith a wnaed ar y goleuadau.**

It was agreed that the Handyperson could now remove the Christmas tree from the Guildhall. Cllr Miles agreed to contact Mr Matthew Penny to remove the Christmas lights from the tree and to request that he invoices the council in due course.

**(c) Cae Chwarae Pentop Playing Field: Diweddariad/Update.**

**Cafwyd diweddariad gan y Cyng. Llwyd Edwards yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr. Sicrhodd y cyngor bod y pwyllgor gwaith yn awyddus iawn i ddechrau'r gwaith ar y cae chwarae ond bod yna brinder oddeutu £30,000 i gwblhau'r prosiect. Dywedodd y Cyng. Miles bod Grant Cymunedol Ceredigion yn un ffynhonnell posib.**

Cllr Llwyd Edwards gave an update to council following the meeting held on 7 January. He stated that the working committee was most eager to commence the development of the play area but that more funding would be necessary as there is an estimated shortfall of £30,000. Cllr Miles added that the Ceredigion Community Grant could be sourced.

**(d) Cilfach Penbont: Plinth – Diweddariad/Update.**

**Cyhoeddodd y Cyng. Miles bod y ffynhonnell i ariannu'r prosiect ar ben. Os daw haul ar fryn eto, o leiaf bydd y gwaith papur yn barod.**

Cllr Miles announced that the funding for this had now ended. If more funding will be announced in future, the paperwork at least is complete.

**Cadwgan: Dywedodd y Cyng. Mark Cole y byddai rhannau o'r castell yn agor yn ystod y flwyddyn hon ac y byddai'r prif agoriad yn cymryd lle oddeutu Dydd Gŵyl Ddewi 2015.**

*Cadwgan:* Cllr Mark Cole stated that parts of the castle would be opened during this year and that the official opening would take place during the St David's Day period in 2015.

**Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed: Dywedodd y Cyng. Graham Evans bod angen ailosod 8 polyn ar ochr ucha'r cae a bod angen trwsio 11 arall; bydd angen 15 medr o reilen. Cytunwyd i'r Cyng. Evans gael prisiau am y gwaith.**

*King George 5<sup>th</sup> Playing Field:* Cllr Graham Evans stated that 8 support poles need to be replaced at the top end of the field, 11 need to be repaired and that 15 metres of rail is required. It was agreed for Cllr Evans to obtain estimates of the work involved.

**Ysbyty Aberteifi: Trefnwyd cyfarfod preifat gan Elin Jones, AC rhwng aelodau etholedig ardal Aberteifi gyda phrif swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn Ystafell Radley brynhawn Mawrth, 7 Ionawr am 2.00 o'r gloch i drafod dyfodol Ysbyty Aberteifi.**

**Yn bresennol: Elin Jones AC, Paul Davies AC, Mark Williams AS, Mr Eirwyn Harries (Cadeirydd Cyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned), 12 Cynghorydd Sir (Ceredigion, Sir Benfro a Sir Gâr), Yr Athro Trevor Purt, Chris Martin, Sue Lewis, Jina Hawkes a Gill Davies**

(swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda).

Adroddodd uwch-swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda eu bod yn hollol tu cefn i'r prosiect yn Aberteifi ond bod anawsterau wedi bod ynglŷn â chyflwyno'r Cynllun Busnes.

Bydd tri chategori o welyau ar gael: admisiynau'r meddyg, gofal canolraddol, gwelyau ar i fyny/i lawr tymor byr.

Rhodddwyd amserlen o 2017 i'r adeilad newydd gyda'r posibilrwydd o'i ddod ymlaen flwyddyn.

Cynigiwyd yn y cyfarfod bod llythyr yn mynd oddi wrth y tri aelod seneddol (Mark Williams, Jonathan Edwards a Stephen Crabb) at weinidog Iechyd Llywodraeth Cymru, Mark Drakeford AC, i drefnu cyfarfod buan rhwng aelodau Cynulliad o bob plaid, un cynrychiolydd o'r cyngor sir, uwch-swyddogion Bwrdd Iechyd Hywel Dda a'r gweinidog Iechyd.

Yn y cyfamser bydd Cyngor Tref Aberteifi a Chyfeillion Ysbyty Aberteifi a'r Gymuned yn bwrw 'mlaen i gyflwyno'r ddeiseb yn ffurfiol i Bwyllgor Deisebau Llywodraeth Cymru (Cadeirydd: Bill Powell AC).

Wedi derbyn a thrafod yr adroddiad uchod yn fanwl, cynigiodd y Cyng. Mark Cole ac eiliwyd gan y Cyng. Llwyd Edwards bod gan Gyngor Tref Aberteifi ddiffyg hyder ym Mwrdd Iechyd Hywel Dda. Cariwyd y cynnig yn unfrydol gydag un cynghorydd yn atal ei phleidlais.

*Cardigan Hospital:* A private meeting was organised by Elin Jones AM between the elected members of Cardigan and district with officers of the Hywel Dda Health Board in Ystafell Radley, on Tuesday, 7 January at 2.00pm.

Present: Elin Jones AM, Paul Davies AM, Mark Williams MP, Mr Eirwyn Harries (Chairman of Cardigan Hospital & Community League of Friends), 12 County Councillors (Ceredigion, Pembrokeshire and Carmarthenshire), Professor Trevor Purt, Chris Martin, Sue Lewis, Jina Hawkes and Gill Davies (executive officers with the Hywel Dda Health Board).

The above officers of the Health Board reported that they were all united in their support of the project in Cardigan; unfortunately, there has been difficulties with the Business Plan. There will be three categories of beds: GP admission, intermediate care, and step up/step down beds (short term).

2017 was set as the timetable for the new building with the possibility of bringing the date forward by one year.

It was proposed at the meeting that the three members of parliament (Mark Williams, Jonathan Edwards and Stephen Crabb) forward a letter to the health minister of the Welsh Government, Mark Drakeford AM, requesting a meeting between assembly members from all parties, one representative from the county council, officers of the Hywel Dda Health Board and the health minister.

In the meantime, Cardigan Town Council and the Cardigan Hospital & Community League of Friends will continue with their intention to present the petition officially to the Petitions Committee of the Welsh Government (Chairman: Bill Powell AM).

After considering the above report of the meeting, and following a lengthy discussion, Cllr Mark Cole proposed that Cardigan Town Council renders a vote of no confidence in the Hywel Dda Health Board; seconded by Cllr Llwyd Edwards. The resolution was carried with one councillor withholding her vote.

**12. Datganiad chwarterol gan y Maer am ddiogelwch cadwyni'r cyngor.**

Quarterly statement by Mayor regarding safeguarding chains of office.

**Sicrhodd y Maer bod y ddwy gadwyn yn ddiogel.**

The Mayor confirmed that both chains were in safe custody.

**13. Personél / Personnel.**

**14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.**

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) **Bore Coffi Cronfa'r Maer, 11 Ionawr, Ystafell Radley.**

Mayor's Fund Coffee Morning, 11 January, Ystafell Radley.

(b) **Llifogydd Aberteifi / Cardigan Floods.**

**Cyfeiriodd y Maer at y llifogydd ofnadwy sydd wedi effeithio ar gymaint o bobl yn ardal Stryd y Santes Fair, y Strand, Stryd y Cei, Ffordd y Castell, Gloster Row ac amryw o ardaloedd eraill. Diolchodd i'r gwasanaethau brys am eu gwaith rhagorol; mae'r cydweithio rhyngddynt a swyddogion y cyngor sir wedi bod yn ganmoladwy. Mae nifer o bobl yr ardal wedi cynnig celfi ac mae ymdrechion ar y gweill i godi arian.**

Derbyniodd lythyr diddorol iawn oddi wrth Canon Seamus Cunnane yn gwyntyllu problemau'r gorffennol yn cynnwys ymdrechion y diweddar syrfëwr R. D. Morris yn chwedegau'r ganrif ddiwethaf i gyflwyno falfiau i reoli'r dŵr oedd yn codi drwy'r gwteri. Roeddynt yn gweithio'n effeithiol, ond erbyn hyn, tebyg iawn, maent wedi dirywio gydag amser. Cytunwyd bod copi o'r llythyr yn cael ei ddanfon at beirianwyr perthnasol y cyngor sir i'w cynorthwyo i ddatrys y broblem reolaidd yma. Awgrymwyd y byddai un llithrfa yn ddigon yn ardal y Strand yn lle'r tair sydd yno ar hyn o bryd. Dywedodd y Cyng. Adams-Lewis bod y cynllun atal llifogydd ar y Mwldan yn dra effeithiol er bod angen ei addasu o dro i dro. Nid oedd ardaloedd Felinban a Cnwcydintir wedi profi llifogydd y tro hwn.

Gan fod cynigion niferus o gyfraniadau ariannol wedi eu derbyn, cytunwyd y gellir derbyn yr arian neu sieciau drwy law'r clerck i'w talu i gategori bydd wedi ei chlustnodi ar gyfer hyn yng nghyfri cyfredol y cyngor. Gofynnodd y clerck am yr hawl i argraffu llyfr derbynneb i'r pwrpas. Caniatwyd hyn.

Dywedodd y Cyng. Miles bod y cyngor sir yn barod i gasglu sbwriel y llifogydd am ddim; rhaid bydd i'r unigolyn gysylltu a threfnu hyn yn uniongyrchol gyda'r awdurdod ar 01545 572572.

The Mayor referred to the serious flooding experienced in Cardigan during the past few days which had badly affected the St Mary Street, Quay Street, Castle Street, Gloster Row and other low-lying areas. He thanked the excellent work of the emergency services; the collaboration between them and officers of the county council had been exemplary. A number of people and organisations in the area had offered items of furniture and there are plans afoot to organise fund-raising schemes.

The Mayor has received a most interesting letter from Canon Seamus Cunnane highlighting similar problems which arose in past years including the efforts of the late borough surveyor, R. D. Morris, during the sixties of the last century to insert valves in the drains. They worked efficiently for many years controlling the rising water; the likelihood now is that they are corroded or malfunctioning.

It was agreed by council to forward a copy of Canon Cunnane's letter to the appropriate county council engineers to assist in solving this unsavoury problem which blights the life of so many people in Cardigan. It was also suggested that one slipway in the Strand vicinity instead of the present three would be sufficient.

Cllr Adams-Lewis stated that the flood alleviation scheme in the Mwldan was working efficiently although it needed adjustment from time to time. He was pleased to report that the Felinban and Cnwcydintir areas had been clear of the storm water deluge on this occasion.

As a number of financial offers to assist the unfortunate residents had been received, it was agreed that money could be paid into the town council current account which would be ring-fenced for assistance. The clerck asked for permission to produce a receipt book specifically for this purpose; permission was allowed.

Cllr Miles added that the county council was prepared to collect all damaged items and rubbish free of charge; the individual tenants would need to contact the authority directly on 01545 572572.

***Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 8.30yh.***

*There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 8.30pm.*

Arwyddwyd/Signed ..... (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date .....